# Nodyn Briffio: Pasbort Pysgota

# Hyrwyddo cyfleoedd marchnata i bysgodfeydd Cymru trwy Gymru gyfan (Cymru a'r gororau).

**Tîm Pysgodfeydd Cyfoeth Naturiol Cymru**
**Mehefin 2018**

## CYFLWYNIAD

Mae hyrwyddo cyfleoedd genweirio'n rhan bwysig o gynnal ein pysgodfeydd. Un o'r prif rwystrau i gael mwy o enweirwyr i bysgota yw mynediad at wybodaeth gyfredol, sy'n eu galluogi i chwilio a dod o hyd i gyfleoedd pysgota yn hawdd. Bydd y fenter hon yn gwella mynediad genweirwyr at aelodaeth clwb ac i docynnau wythnosol a dyddiol.

Daw'r cynigion cyfredol am reolaethau pysgota newydd ar gyfer eogiaid a brithyllod y môr mewn ymateb i'r lefelau gwael o stoc sydd ar gael o'r rhain dros y rhan fwyaf o Gymru. Fodd bynnag, mae pysgota am frithyllod a changhennau glas, lle maen nhw'n bodoli, yn dda iawn ar y cyfan. Mae rhai cymdeithasau a chlybiau wedi awgrymu y gallai'r gostyngiad mewn aelodau a'r refeniw dirywiol a welwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf gael eu gwaethygu gan y rheolaethau newydd arfaethedig. Fodd bynnag, gallai hyrwyddo cyfleoedd pysgota yn effeithiol helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn. Mae hefyd yn bwysig cadw diddordeb economaidd a diddordeb twristiaid mewn pysgota yng Nghymru er mwyn cynorthwyo â'r gwaith o adfer pysgodfeydd.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru, felly, wedi hwyluso menter newydd gydag Afonydd Cymru sy'n ceisio helpu i fynd i'r afael â hyn drwy wella gwybodaeth, cysylltiadau, ymwybyddiaeth, a pha mor hawdd yw hi i fanteisio ar gyfleoedd pysgota.

Bydd y fenter hon yn cael ei hariannu gan Cyfoeth Naturiol Cymru a'i rheoli trwy'r system basbort lwyddiannus, sy'n galluogi perchnogion pysgodfeydd, clybiau a chymdeithasau i hyrwyddo mwy o fynediad i'w pysgodfeydd.

## Y PASBORT

Mae'r cynllun pasbort yn system bwcio a chael gwybodaeth ddibynadwy a sefydledig ar-lein ar gyfer pob math o bysgota. Mae'n cynnig cyfle i farchnata unrhyw fath o bysgota yng Nghymru a'r gororau. Mae hyn yn cynnwys nentydd, afonydd, pyllau dŵr a chronfeydd dŵr ac unrhyw rywogaeth o'r canlynol: brithyll, eog, brithyll y môr a physgod bras.

Mae'r pasbort yn caniatáu i unrhyw berchennog, clwb neu gymdeithas sy'n tanysgrifio gynnig ei hadnoddau pysgota i enweirwyr, gan gadw rheolaeth ar bob adeg. Bydd yn cadw'r hawl i wrthod pysgota ar rai diwrnodau, i newid prisiau, i bennu pryd gellir pysgota, a hyd yn oed i dynnu ei physgodfeydd o'r cynllun ar unrhyw adeg.

Mae'r system hefyd yn caniatáu i enweirwyr rannu eu profiadau o bob pysgodfa, da neu ddrwg (er bod y sylwadau'n cael eu golygu cyn eu harddangos). Mae hyn yn ffynhonnell werthfawr o wybodaeth i enweirwyr eraill wrth benderfynu lle i bysgota, ond hefyd i berchnogion wrth bennu sut gallant wella eu pysgodfeydd.

Cesglir y ffioedd pysgota gan Sefydliad Gwy ac Wysg ac anfonir y rhain at y perchennog neu'r clwb bob chwarter, gyda'r comisiwn i gynnal a gweinyddu'r cynllun wedi'i dynnu o hyn.
Mae gan y cynllun gronfa ddata fawr ond cynyddol o ryw 23,000+ o enweirwyr, a chysylltiadau â darparwyr llety a gwasanaethau eraill cysylltiedig, fel tywyswyr, siopau offer pysgota, clymwyr plu, ac ati.

Yn ystod y tymor pysgota, cyhoeddir adroddiadau misol ar-lein ar bysgod bras, eogiaid, sewin a brithyllod/canghennau glas, a chyflwynir hysbysiad trwy e-gylchlythyr. Ychwanegir at hyn gan e-newyddion rheolaidd sy'n hysbysebu pysgodfeydd penodol ac yn cyhoeddi cylchdeithiau a digwyddiadau sydd newydd ymuno â'r fenter.

Caiff tocynnau dyddiol, wythnosol a thymhorol eu harchebu ar-lein neu drwy'r swyddfa â gweithwyr, sydd hefyd yn rhoi cyngor ac yn ateb ymholiadau.

I grynhoi, mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cynnig cyfle i bysgodfeydd ymuno â'r cynllun pasbort a'i ddefnyddio, heb orfod talu ffioedd cychwynnol. Bydd hyn yn eu galluogi i gael mynediad i gyfleuster profedig er mwyn gwneud y canlynol:

- hyrwyddo'r pysgota y maen nhw eisiau ei gynnig
- gwerthu tocynnau/trwyddedau dydd, wythnos a thymor trwy'r pasbort
- galluogi aelodau/clybiau i archebu slotiau ar eu lle pysgota eu hunain i'w defnyddio eu hunain
- ychwanegu dolen i wefan y clwb neu'r gymdeithas ei hun, gyda dolen sy'n mynd yn syth i'r dudalen berthnasol ar y safle pasbort pysgota
- gweinyddu eu pysgodfeydd eu hunain, gan osod adegau y maen nhw ar gael a'r prisiau
- sicrhau bod eu hadnoddau pysgota'n cael eu hysbysebu i'r 23,000+ o enweirwyr ar y pasbort pysgota trwy e-newyddion, gwefan, cyfryngau genweirio a gweithgarwch hyrwyddo arall
- cynnwys gwybodaeth am gwb/perchennog mewn e-gylchlythyr
- derbyn taliad chwarterol am drwyddedau a werthir trwy gyfleuster ar-lein y pasbort

Wrth gwrs, byddai pysgodfeydd yn rhydd i adael y cynllun ar unrhyw adeg.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â
Seth Johnson-Marshall (Seth@wyeuskfoundation.org)

neu Allyson Williams (allyson@wyeuskfoundation.org)

Ffôn: 01874 711714

Sefydliad Gwy ac Wysg, The Right Bank, Y Sgwâr, Talgarth, LD3 0BW